**Pwyllgor Rheoli Datblygu
(Archwiliadau Safle)**

**8 Gorffennaf 2024**

Yn bresennol: Dr M Havard (Cadeirydd)
Cynghorydd S Alderman, Dr R Heath-Davies, Cynghorydd Dr S Hancock MBE, Mr GA Jones, Cynghorydd M James a'r Cynghorydd V Thomas.

Swyddogion yn bresennol: Mrs S Morris, Ms K Attrill a Mrs C Llewellyn (Cofnodion).

(Archwiliad Safle: 10.45am – 12.25am)

**1. Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am eu habsenoldeb wrth y Cynghorydd D Clements, Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd C George, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd PJ Morgan, Dr RM Plummer, Cynghorydd B Price, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd M Wiggins a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**2. Pwrpas yr Ymweliad**
Croesawyd yr Aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd gan eu hatgoffa mai pwrpas yr ymweliad y diwrnod hwnnw oedd er mwyn eu galluogi i gyfarwyddo eu hunain â safle'r cais a'r hyn oedd oddi amgylch. Ni fyddai yna drafodaethau na phenderfyniadau nes y byddai'r cais cynllunio yn cael ei drafod mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu yn y dyfodol.

**3. NP/24/0198/FUL - Adeiladu a newid defnydd yn ganolfan antur awyr agored, a stiwdio gelf a lle storio uwchben, a gwaith cysylltiedig - The Old Bus Depot, Trewyddel, Aberteifi, Sir Benfro, SA43 3BW**
Esboniodd y Rheolwr Rheoli Datblygiad bod y datblygiad arfaethedig yn cynnwys pâr o adeiladau ar safle lleoliad lle arferid cadw bysiau, i'w ddefnyddio fel sylfaen canolfan antur awyr agored, stiwdio gelf breifat a lle storio ar y llawr cyntaf ynghyd â gwaith cysylltiedig. Roedd yr adeiladau ar y safle wedi'u gwaredu yn gynharach yn y flwyddyn am eu bod mewn cyflwr peryglus a heb eu defnyddio ers nifer o flynyddoedd. Oherwydd gwahanol lefelau'r safle roedd y swyddogion wedi gofyn am ddiwygio'r dyluniad fel bo'r elfen ddeulawr ymhellach oddi wrth eiddo preswyl ac roedd ymarfer ail-ymgynghori wedi digwydd o ganlyniad i'r cynlluniau diwygiedig.

Nodwyd bod y busnes ar hyn o bryd yn cael ei weithredu o fferm gerllaw a'i fod yn darparu arforgampau a cheufadu yn Ceibwr. Gofynnodd yr Aelodau i'r swyddogion egluro nifer o fanylion yn cynnwys y defnydd o

stiwdio gelf, defnydd a storio beiciau trydan, llefydd parcio digonol ar y safle, oriau defnydd a ph'un a fyddai datblygu'r safle yn arwain at gynnydd mewn gweithgareddau draw yn Ceibwr. Fe'u cynghorwyd y byddai gwybodaeth bellach ynghylch yr elfennau hyn yn cael ei ddarparu pan ddeuai'r cais gerbron y Pwyllgor i'w benderfynu.

Ar ôl gweld y safle o wahanol fannau bu'r Aelodau yn edrych arno o ardd eiddo gerllaw. Roedd caniatâd i wneud hynny wedi'i sicrhau wrth y perchennog gan y swyddogion ymlaen llaw. Roedd yn bosib gweld rhan o do'r sied dun oedd ar y safle ar hyn o bryd er mwyn creu cyd-destun er nodwyd y byddai'n cael ei symud cyn datblygu'r safle. Teithiodd yr Aelodau wedyn i Geibwr er mwyn gwerthfawrogi'r pellter, natur y ffyrdd a'r lefel o barcio oedd ar gael yn y fan honno. Nodwyd mai rhan o'r rhesymeg y tu ôl i'r cais oedd lliniaru'r pwysau parcio yng Ngheibwr.

Wrth ddiolch i bawb am fynychu, cyhoeddodd y Cadeirydd fod yr archwiliad safle wedi dod i ben.